# Pennod 202 - Bod yn Glerc, a Chynrychioli Cymru ar yr SLCC: Sgwrs gyda Emma Smith

Hello, this episode will be in Welsh. If your Welsh isn't up to following along, then we are completely fine with you skipping to the next one.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Helo, a chroeso i'r gyfnewidfa, podlediad wedi'i gynhyrchu gan Archwiliad Cymru.

Siôn Owen ydw i, a dwi'n gweithio i'r Gyfnewidfa Arfer Da.

Mae'r bennod hon yn rhan o gyfres yn edrych ar sector y Cynghorau Cymuned a Thref.

Fu i ni fynd i swyddfeydd Cyngor Tref Caerfyrddin i gael sgwrs gyda Ema Smith, Clerc Cyngor Tref Caerfyrddin.

Fu i ni ddysgu am y profiad o fod yn clerc, yn ogystal â rhai o'r rhinweddau sy'n gwneud clerc effeithiol. Emma hefyd yw Ymgynghorydd Cymru i'r Gymdeithas Clercod y Cynghorau Lleol, yr SLCC, a mae hefyd yn gweithredu fel swyddog cyswllt polisi i Gymru.

Ma' yna ail ran i'r sgwrs hefyd, yn trafod dwy broject lle mae'r Cyngor Tref yn cydweithio gyda sefydliadau eraill: Sef cynhadledd ar newid hinsawdd i blant a bobl ifanc ac astudiaeth ar y ffyrdd all adeiladau canol tref Caerfyrddin leihau eu hallyriadau carbon.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Felly dan ni yma yn ystafell gyfarfod cyngor tref Caerfyrddin a ma' gynnon ni Emma Smith, Clerc y dref. Fysa chi'n licio cyflwyno eich hun?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Emma Smith ydw i, rwy'n glerc i gyngor tref Caerfyrddin a hefyd rwy'n ymgynghorydd a swyddog cyswllt polisi ar gyfer Cymdeithas Clercod Cynghore lleol, sef yr SLCC.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Iawn, a ocê, felly, awn ni ddechrau efo y profiad o fod yn clerc. Be ydy clerc, cyngor cymuned neu dre, ella?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

I bob pwrpas, clerc yw prif weithredwr cyngor neu prif swyddog, a prif cynghorydd, sef adviser y cyngor, a uwch swyddog sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyngor yn gweithredu'n gyfreithiol ac yn broffesiynol felly.

Maen nhw'n arwain o ran llywodraethu yn edrych ar cydymffurfiaeth a deddfwriaeth, sicrhau bod y reolau sefydlog yn cael eu dilyn ac ati, a rheoli arian ac ati trwy'r reoliadau ariannol. Maen nhw'n rhoi cyngor ac arweiniad proffesiynol fel bod cynghorwyr yn gallu gwneud penderfyniadau, a maen nhw'n hefyd yn goruchwylio cyfarfodydd a sicrhau bod agenda cofnodion a pethau fel 'ny yn cael eu darparu.

Yn aml iawn maen nhw'n gweithredu fel y swyddog ariannol cyfrifol hefyd, ond ddim bob tro, a gorfod rheoli cyllidebau ac ati a cymryd y cyfrifoldeb am neu taliadau ac yn y blaen.

A maen nhw hefyd ar ôl gyda'r cyhoedd o ran cyfathrebu, delio gyda ymholiadau a hefyd cysylltu â'r gymuned, cynnal digwyddiadau ac ati. Maen nhw hefyd yn edrych ar prosiectau, edrych ar ôl gwasanaethau lleol falle ac asedion y cyngor fel parciau yn mynwentydd a unrhyw prosiectau eraill.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Felly mae yna lot o bethau dan y dyletswyddau, yn y swydd fan'na.

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Oes, mae'n aml sgil a ie mae fel spino platiau basically, cadw popeth i fynd.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Wedyn, so Cyngor Tref Caerfyrddin, pa mor fawr ydy hwnna fel
Cyngor?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Ni'n un deg wyth o aelodau. Mae un deg chwech o staff gyda ni hefyd, lot o’n rhei ni yn y tîm tu fas. Ma' pump o ni yn y swyddfa a tri gyda ni mewn siop dê.

Ma'n precept ni dros naw can mil erbyn hyn a mae'n cyllideb ni dros filiwn yn gyda popeth wedi cynnwys.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Felly dipyn o blatiau.

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**
Os, tipyn o blatiau.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Ocê, felly, beth yn eich tyb chi sy'n gwneud clerc effeithiol wedyn?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**
Chi'n gorfod cael lot fawr o wybodaeth, profiad a sgiliau, gallu gorfod arbenigo rywfaint yn y gyfraith, gorfod gallu rheoli project heb acshyli cael y cymwystere yn aml iawn i wneud hwn, ond y gwybodaeth a'r gallu i wneud e a'r hyder i wneud e.

A chi'n gorfod bod yn ofalus fel chi'n ymdrin â pobl a bod eitha diplomatic a yn aml iawn gorfod datrys problemau. Fi'n cofio pan dechreuais i fel clerc a ddim wedi wneud e o'r blaen, o'n i'n gorfod meddwl tipyn wrth fy hunan a ffindo'r atebion i betha gyda neb i ofyn, felly oedd e'n her a dysgu lot yn eitha cyflym ar y cyfnod yna a chi'n gorfod cael gwybodaeth da ambiti llywodraethiant llywodraeth leol: Pethe fel archwilio, caffael, risg, chi'n gorfod bod yn niwtral wrth gwrs a trin pob aelod yr un peth, ma' rhai o nhw obviously yn mynd i fod yn perthyn i bleidlais gwleidyddol, lot o nhw yn annibynnol hefyd, a ma' rhaid chi cael sgiliau cyfathrebu da hefyd fel bod chi'n gallu cyfathrebu gyda'r cyhoedd neu gyda aelodau a anfon gwybodaeth cywir clir allan, a gallu jyglo lot fawr o bethe gan gynnwys dyddiadau cae, dyddiadau anfon papurau.
Sicrhau bo' chi'n cydymffurfio gyda popeth a adrodd ar popeth sydd angen adrodd ar, tra yn cadw llygad ar be sy'n mynd ymlaen yn y gymuned, ac ati.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Y Platiau?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Ie, gallwn ni gario ymlaen. So timod ma' pethau ariannol hefyd yn aml iawn gyda clercod heb heblaw bod yno swyddog ariannol cyfrifol ar wahân a chi jyst yn gorfod delio gyda rywfaint o wrthdaro weithiau yn y gymuned ac rhwng aelodau. Neu rhwng rhai aelodau, ond timod ma' hwnna'n dderbyniol i raddau ond weithiau ma' gormod o hwnna'n digwydd yn y sector yn anffodus.

Ac ar yr un pryd, fod yn edrych ar y dyfodol a edrych beth sy'n dod lan, beth ydyn ni moyn ceisio cael ar y silff yn barod am gais grant a meddwl ymlaen hefyd, a cael dealltwriaeth wedyn o'r gymuned beth sy isie arnyn nhw er mwyn gallu llunio hwnna, a ma' hwnna i gyd yn dod lawr i strategaeth y cyngor hefyd, sydd yn rywbeth chi'n gyfrifol am baratoi hefyd ar y cyd gyda'r cynghorwyr.

Ie, felly lot fawr iawn o jyg- o'r jyglo a ballu.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ond ma' na ma' na gefnogaeth ar gael i i chi fel clercod yn does?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Ie, ma' sefydliadau fel Un Llais Cymru a'r yr y gymdeithas sy'n mynd gweithio i fel cynghorydd ar gyfer clercod yng Nghymru ac ati a ma' nhw'n grêt o ran darparu ymatebion i ymholiadau. Mae nhw'n gallu rhoi cyngor cyfreithiol ac ati hefyd sydd yn sicrhau a tawelu meddwl, felly ma' hwnna'n grêt.

Ond weithiau ma' jyst angen rhywun yn yr ystafell i chi allu siarad â hefyd. Ma'n gallu bod eitha unig fel clerc, rwy'n lwcus fan hyn achos ma' lot o staff yma a ni'n gallu rhannu profiad. Ma' rhai o nhw wedi bod am amser hir, felly ma' lot fawr o wybodaeth gyda nhw a ma' hwnna'n gysur. Ond fi'n cofio'r cyfnod o fod wrth fy hunan a mae o'n heriol.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ie achos ma' na rei cynghora cymuned a ballu, maen nhw'n fach iawn o ran adnoddau ac amser staff felly dydy.

Felly, ma' na lot yn fan'na o gadw cydbwysedd, bod yn yn medru gwneud lot o rolau gwahanol. Oes na heriau eraill?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Wy’ di cyffwrdd ar y llwyth gwaith trwm, yn enwedig yn y cynghora bach lle ma' un clerc, efallai dim lot o oriau, a ma' amser yn un peth achos mae'r disgwyliadau'n cynyddu trwy'r amser gyda deddfwriaeth newydd.

Oedd y oedd deddf Llywodraeth Leol a etholiadau 2021 wedi gofyn am lot fwy o bethe fel adroddiadau blynyddol, cynlluniau hyfforddiant ac ati, ond yn sicr os ma' lot o gynghorau mas ‘na sy ddim wedi cynyddu oriau y clerc ac ati, neu tal y clerc o bosib, ond ma' tipyn mwy o waith, tipyn mwy o gyfrifoldeb ynghlwm â hwnna wedyn ‘ny.

Felly, falle oedd gwaith a diffyg amser yn rai o'r heriau deall y newidiadau, achos ma' newidiadau wedi bod yn deddfwriaeth a ma' lot fawr i ddeall ond ma' canllawiau mas yna gan Llywodraeth Cymru ac ati.

Mae'n anodd cadw lan gyda popeth, jyst yn meddwl am bethau fel lwfansau aelodau, ma' hwnna'n gallu bod yn eitha’ cymhleth. Fi'n cael ymholiadau eitha’ cyson ambiti hwnna, achos ma'r lefantau yn newid yn weddol aml, a ma' cwestiynau traeth ac ati ynghlwm â nhw, a ‘dyw e ddim, yn bethau rwydd, a gyda nhw newid yn weddol aml, a weithiau dyw canllawiau ddim cant y cant yn clir. Mae'n gallu bod yn eitha anodd i ddeall hwnna.

Mae camddeilltwriaeth hefyd, fi'n credu, o ran rôl y clerc, ma' teitl yn gamarweiniol, achos mae'n awgrymu rôl gweinyddol, le rili chi'n wneud y gwaith rheoli. Ma' teitl fel Clerc y Dref falle'n swno yn bach mwy uchel lan, ond eto fi'n credu bod y cenhedlaeth hŷn yn deall beth yw hwnna, ond falle ddim y cenhedlaeth iau cymaint.

Ma' rhai clercod nawr yn dewis teitl eraill fel Prif Weithredwr neu Prif Swyddog. Ma' hwnna'n dod yn fwy cyffredin, ond ma' tipyn o hanes hefyd i'r term clerc, a ma' rywbeth sbesial yn perthyn i hwnna. Felly, mae'n anodd rili cael y balans. Felly, mae rhai yn cymryd yy dau teitl a gallu defnyddio nhw gyda'i gilydd.

Yr unig beth byddai ymddygiad aelodau weithiau tensiynau gwleidyddol rhyngddyn nhw, yn anffodus, pan dwi'n rhoi cyngor i glercod lot fawr i'n clywed, yw bod nhw'n cael eu

canrif neu ei bwlio gan aelodau o gynghore, a ma' lot fawr o hwnna'n digwydd ar y funud, a ma' hwnna'n un o prif heriau'r sector, a does dim lot o allu i ddelio gyda fe ar hyn o bryd. Ma'r sanctions yn gyfyngedig iawn.

Un o'r pethau sy'n digwydd ar hyn o bryd yw, ma'r Senedd wedi gwneud ymchwiliad i'r sector yn 2024,2025 ac un o'r argymhellion yr ymchwiliad yna yw i ddod mewn â hyfforddiant ar y cod ymddygiad a trio gwneud hwnna'n orfodol, er mwyn trio gwella safonau ymddygiad. Felly, ma' hwnna'n un o'r prif heriau.

Lot o reswm am hynny hefyd yw bod ma' lot o aelodau'n gallu dod mewn i cynghorau heb yn mynd trwy etholiad ac ati. Mae'n weddol hawdd cael sedd, ond mae'n eitha' anodd cael gwared ar ôl ni. Felly, ma' ma' pobl yn diodde' oherwydd yr ymddygiad yma.

Aelodau ennill yn ogystal â clercod.

A adnoddau hefyd yn issue, cyllideb falle ddim yn ddigonol i wneud yr holl waith sydd isie, staff cyfyngedig falle dim ond un, a disgwyliadau uchel hefyd gan y sector a deddfwriaeth, ond hefyd gan yr aelodau eu hunain falle cadw llwyth o gwaith heb ystyried lle mae'r amser yn dod o allu gwneud hwn, a hefyd timod ma' amser wedyn i'n ymestyn i'r penwythnos neu yn y nos.

Cyfarfodydd nos, chi'n dod mewn i'r swydd yn disgwyl hwnna achos natur y sector, ond weithiau mae yna bethau ar y penwythnos hefyd a mae mae'n gallu cynyddu'n eitha' sydyn os nad dach chi'n cadw reolaeth arno fe.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ie, achos mi fedrai feddwl bod o'n sector llawn pobl sy'n frwdfrydig dros wneud gwahaniaeth i'w cymuned a bod angen jyst rheoli hwnna fel bod o'n digwydd mewn ffordd gynaliadwy i'r clerc felly does?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Ydi, ie mae'n mae yn tric achos mae rhywun yn dod mewn â syniad, a mae'n syniad grêt, ond mae'ch llwyth gwaith chi, mae'ch amserlen chi'n llawn yn barod, felly le mae'r adnoddau ar gyfer hwn, o wel gallwn ni cael grant, wel pwy sy'n mynd i wneud cais grant ie a'r holl waith sydd fan' 'na.

Mae'n syml pan chi'n dweud e fel na o allwn ni jyst cael gais grant, ma' hwnna'n tipyn o waith yn ei hunain. Y math yna o bethe, yn enwedig pan does dim staff eraill neu rywun i gefnogi, yn y cynghora bach typically, ma'r aelodau yn gwneud mwy o waith.

Maen nhw'n gorffod, os oes digwyddiadau er enghraifft, maen nhw'n gorffod bod yna'n codi pabell neu rywbeth. Maen nhw'n goffod bod yn rhan o hwnna.

Ond yn y cynghorau mwy o mwy o faint ma' hwnna'n cwmpo i'r staff a ma'r adnoddau yna i wneud e. Ond hyd yn oed pryd ‘ny, maen nhw'n cyrraedd capasiti yn weddol gyflym a ma'r syniadau'n gallu cadw dod.

Felly, mae'n yym na na beth yw'r heriau, ond ar y cyfan, ni'n delio gyda nhw. A mae'n mae hwnna'n dyst rili i gryfder clercod.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Yndi, a mae'r cynghora cymuned a threfi, maen nhw'n agos i'r gymuned, fel dach chi wedi dweud yn barod, mae yna gyfleoedd mawr i wneud gwahanieth a ballu yna does?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Oes. Ma' cynghorau bach yn enwedig yn agos iawn at eu cymunedau, gwybod yn iawn pwy sy'n byw yna, pwy sy angen help er enghraifft, pwy sy'n gallu bod yn vulnerable os oes rhywbeth yn mynd o'i le, a maen nhw'n deall eu cymuned nhw yn dda iawn.

Mae am hwnna, yn newid rywfaint wrth bod y corff yn mynd yn fwy er enghraifft, ond eto maen nhw'n dal yn sicr yn agosach at y gymuned er mwyn deall anghenion na'r awdurdodau lleol mawr ar lefel cyngor sir, er enghraifft.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Yndi, ond ma' hwnna'n fantais o fod wedi seilio o gwmpas tre neu gymuned a ballu dydy?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Gallu ffocysu ar un lle yn lle goffod edrych ar sir cyfan, gallu ymgynghori gydag un lle, er enghraifft. Mae'r aelodau yn clywed wrth y bobl a deall beth yw eu pryderon nhw, a beth hoffen nhw weld er enghraifft, a cydweithio gyda swyddogion cynghorau cymunedol eraill sydd hefyd yn siarad â'r gymuned.

Felly, mae'r cydweithio yna'n bwysig, a ni'n wneud lot fawr o weithio mewn partneriaeth fan hyn er mwyn gwneud mwy, ond hefyd i alluogi eraill i wneud mwy. A helpu grwpiau cymunedol newydd eu sefydlu trwy meithrin nhw, a wedyn

ni, pan maen nhw'n barod, maen nhw off wrth eu hunain i wneud y gwaith wedyn ni, a sdim isie ni ddal llaw mwyach.

A ma' hwnna'n gwella'r gymuned wedyn ‘ny, hebddo bod ni'n gorfod cadw rhoi adnoddau neu amser mewn i rywbeth.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
A wedyn ma' a felly'r gweithio partneriaeth yna'n hawdd?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**
Ydy, ie, mae e'n gweithio'n dda iawn. Ma' sawl enghraifft o hwnna wedi bod fan hyn le ni'n helpu pobl i ddechrau. A wedi hynny ma' nhw'n cario ymlaen ac yn gallu gwneud y gwahaniaeth eu hunain wedyn.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Oes gennych chi rywbeth arall i ychwanegu ar y ffordd fedr y Cynghorau Cymuned a Thref wneud gwahaniaeth, wedi sôn am gydweithio?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**
Ie, maen nhw o ran beth mae'r Cyngor Tref a Chymuned gwneud, ni'n wneud lot ohono fe nawr o ran gwella gwasanaethau lleol, ni'n edrych ar ôl parciau fan hyn er enghraifft, a ma' parciau grêt gyda ni a ma'r gymuned yn gwerthfawrogi gallu cael y gofod yna i fynd i ymlacio neu ar gyfer digwyddiadau, ma' digwyddiad tân gwyllt yna er enghraifft bob blwyddyn. Ma' pobl yn cwrdd yna ar y penwythnos i wneud park run ac ati, neu maen nhw jyst yn cwrdd gyda ffrindiau a gallu ymlacio ar enghraifft.

So ma'r math yna o bethe, edrych ar ôl y llefydd chwarae i blant, edrych ar ôl y fynwent sy gyda ni hefyd sy'n bwysig i'r gymuned, a cynnal digwyddiadau. Bob blwyddyn ni'n wneud sawl digwyddiad pwysig yn y dre fel y digwyddiad Nadolig, ras y Maer, Sul y Cofio. Y math yna o beth sydd yn dod yn digwyddiadau blynyddol, ma' pobl yn disgwyl gweld, ond mae'n nhw wastad yn llwyddiant ac yn dod mewn â miloedd o bobl i'r dre sydd yn eu tro wedyn yn cefnogi'r sector busnes, achos ma' mwy o bobl yn dod mewn yn gwario arian yn y busnesau yna.

Hefyd ni'n gallu edrych ar ôl pobl lleol a ma' cynghorwyr yn siarad â pobl lleol yn gallu cyfathrebu'r anghenion lan yr ysgol, wedyn i'r cyngor sir os nad yw e'n rywbeth ni'n delio gyda yn uniongyrchol, neu Llywodraeth Cymru ac ati.

Ni'n gallu rhoi arian grant i grwpiau lleol fel bod nhw'n gallu cario mlaen gyda'u digwyddiadau nhw ac ati.

Ni'n gwella y mannau cyhoeddus a edrych ar ôl y dre rywfaint; ni wastad yn wneud bach o spring clean bob mis Mawrth, cyn bod ni'n wneud y Parêd Gŵyl Dewi er mwyn teclyso'r lle, a er bod hwnna ddim yn rhan o ein cylch gwaith ni, ni'n wneud o yn wirfoddol math o flwyddyn jyst er mwyn cyfrannu achos y cyngor sir sydd yn wneud y gwaith yna go iawn.

Hefyd ni'n gallu cefnogi pethau fel twristiaeth ni newydd datblygu gwefan newydd o'r enw caru Caerfyrddin.com sydd yn dangos be sydd i gael yn Caerfyrddin ar gyfer pobl sy'n byw yma, ond hefyd twristiaid.

Felly, ma' hwnna'n ddatblygiad newydd cyffrous fan hyn, a fi'n credu bod mwy o rôl gyda ni yn y dyfodol, ond ma' isie cefnogaeth a cefnogaeth ariannol yma o ran cymorth brys.

Wnes i gyflwyniad o hwn yng nghynhadledd Cymdeithas y Clercod yn ôl yn mis Hydref o biti gwydnwch cymunedol a beth yw rôl cynghore' tref a chymuned o ran argyfyngau yn y gymuned; os oes, sa i'n gwybod, tân neu flood neu rywbeth fel yna, beth ydyn ni'n gallu wneud?

A mae'n gallu bod mor syml a chynnig gwybodaeth am y gymuned i'r gwasanaeth o brys, neu mae'n gallu bod yn neuadd pentref ni'n gallu agor lan er mwyn rhoi lle i bobl fynd ac ati, a y math yna o beth. Felly, mae mwy o rôl gyda ni fan hyn, ond ar hyn o bryd ni ddim yn cael ein cynnwys yn y trefniad yma, achos dan ni ddim yn cael ein ystyried beth maen nhw'n galw yn responder, ond ni'n teimlo bo' nhw'n colli rywbeth fan'na o ran cynnwys ni, achos fel chi'n gweud, ni'n agos at y cymunedau, ni'n deall, a hefyd ma' adnoddau gyda'r cynghorau, yn enwedig yn y pentrefi bach lle does na ddim canolfan hamdden neu rywbeth fel yna falle, ond ma' neuadd pentref i gael.

Ma' cyfle fanna, ond ar yr un pryd, ma' tipyn o waith fel ni'n gweud gyda Clercod ac ati yn barod, ond byddai tipyn o cefnogaeth wedyn trwy arian neu amser gan Llywodraeth leol neu Llywodraeth Cymru yn galluogi mwy i ddigwydd.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ie, achos dan ni'n dod yn ôl i'r hen gân am geiniogau ac yn y diwedd mae'n prynu amser a capacity dydi?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Yn union, a dwi'm yn gwybod beth yw'r ateb i hwn achos sdim yr amser gyda ni, sdim yr arian gyda nhw, a potentially gallwn ni prynu mwy o amser pe bydd yr arian gyda ni.

So mae mae mae'n mynd rownd mewn cylchoedd.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

O safbwynt Clerc wedyn, ac i raddau dan ni wedi cyffwrdd ar hyn yn yr atebion i'r cwestiynau eraill, be fysa'ch gweledigaeth chi am ddyfodol cynghorau cymuned a thref?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Fi'n credu bod y dyfodol yn golygu bod ni'n gallu cymryd mwy ymlaen, yn enwedig y cynghorau mwyaf faint, ond ma' cryn dipyn o adolygiadau cymunedol yn mynd ymlaen ar hyn o bryd, le ma' cynghorau'n cael eu cyfuno.

Felly, dwi ddim o blaid cyfuno gormod o cynghorau, achos fi'n credu bod bod yn agos at y cymunedau yn bwysig. Ond os yw canlyniad hwnna'n golygu bod cynghorau yna'n gallu gwneud mwy ar gyfer cymunedau, ma' hwnna'n beth positif i'w wneud. Felly, fi'n credu bod y dyfodol yn edrych ar cael yr llywodraeth, yr haenau uwch o lywodraeth, i ymddiried ynddom ni i wneud mwy, a dyna beth maen nhw'n cadw dweud.

Ond ma' isie cynnwys ni yn y sgwrs, yn lle sydyn reit jyst isie gollwng rywbeth arnon ni.

Ma' isie ni fod yn rhan o'r drafodaeth, ac ar hyn o bryd, dwi'm yn teimlo bod ni fel cynghore unigol yn rhan o'r drafodaeth ar lefel sir, er enghraifft. Felly ma' isie ni fod yn rhan o'r dyfodol a gallu cyfrannu a gweud gwneud gwahaniaeth fel yna.

‘Dyw e ddim yn glir beth yw beth yw hwnna ar hyn o bryd. A ma' lot o argymhellion wedi cael eu wneud gan y Senedd, a ma' Llywodraeth Cymru yn

mynd i fod yn ystyried nhw nawr. Wrth gwrs ni wedi cael newid Llywodraeth, a oedd dim amser cyn yr etholiad i gymryd unrhyw un o'r argymhellion yma ymlaen. Ond maen nhw'n edrych, fel chi'n gwybod, ar y system archwilio. Maen nhw'n edrych ar hyfforddiant cod ymddygiad.

Ma' lot o pethe sydd yn perthyn i ymddygiad ar y cynghore yn fan hyn gan gynnwys defnyddio'r Local Resolution Protocol yn fwy a gallu cael mynediad at swyddogion monitro yn y cynghore sir ac ati. So ma' gyd yn perthyn i'r un issue o ran ymddygiad.

Felly, os yw pethe hyn yn gallu cael eu gwireddu, fi'n credu bod y dyfodol yn eitha' disglair achos un o'r prif heriau yn y sector ar hyn o bryd yw'r ymddygiad yna, na pan ma' pobl yn gadael.

Felly, ma' isie cadw y pobl sy gyda ni a hefyd denu mwy, achos ma' trafferthion recriwtio ar hyn o bryd. Felly, ffocws ar cael y pethau yna'n iawn gynta cyn gallu symud ymlaen er mwyn gallu datblygu i wneud mwy o bethe.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ie, wedyn hwnna ‘di'r profiad dydd i ddydd, y job bara menyn fel clerc. Ond dach chi hefyd yn swyddog Cymru efo Cymdeithas y Cwerchod, yr SLCC?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Ydw, i'n rhoi cyngor i glercod, ond hefyd yn cyswllt polisi yng Nghymru i drafod gyda sefydliadau fel chi, Archwiliad Cymru, a gyda Llywodraeth Cymru, a rywfaint o drafod gyda'r Comisiwn sy'n edrych ar ôl lwfansau aelodau a'r adolygiadau cymun- cymunedol ac ati hefyd.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ocê, wedyn fedrwch chi ymhelaethu bach mwy o be di'r rôl yna lly?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Yn gynta, dechreuais i jyst fel cynghorydd i glercod, felly byddwn i'n delio gyda ymholiadau, naill ai dros e-bost neu ar y ffôn, a rhoi cyngor ar betha bach syml weithiau, ymholiad bach syml o glercod newydd er enghraifft, i petha bach mwy anodd o ran cyflogaeth a problemau oedd clercod yn cael gyda aelodau ac ati. Felly mae'n gallu amrywio beth yw'r ymholiadau, a fi'n dysgu pethau newydd fy hunan, wrth wneud.

Mae o wedi bod yn ffantastig o ran fy natblygiad i os rywbeth, achos weithiau dwi'n cael ymholiad dwi'n meddwl, hmm, dwi'm yn siŵr, felly mae'n rhaid i fi ffeindio mas, a wedyn  fi'n dysgu. So mae'n wych o beth yn yn hynny o beth.

Ond o ran yr ochr arall, dwi di ael hwnna'n fwy diweddar, blwyddyn ar ôl i fi ddechrau fan'na, des i'n swyddog polisi hefyd, achos oedd yr swyddog polisi wedi ymddeol a ges i y rôl ychwanegol yma, a ma' hwnna'n yn perthyn rywfaint i gwaith fi di wneud o'r blaen, achos o'n i'n gweithio yn Llywodraeth Ganol cyn hynny, i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Senedd cyn hynny, a'r Llywodraeth Cymru, felly o'n i di wneud tipyn o waith polisi cyn hynny, a ymgysylltu gyda Cyrff Llywodraeth Ganol gan gynnwys y rhai yn Llundain, a oedd e'n siwto rili i ellu mynd mewn i'r trafodaethau yna er mwyn dylanwadu ar y sector a cynrychioli clercod yng Nghymru yn y trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a y Swyddfa Archwilio ac ati.

Ni'n lwcus achos wna i wrando, wna i gymryd rhan mewn cyfarfodydd, a fi'n gwbod bod nhw ddim yn cael yr un llwyddiant yn Lloegr.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ie achos dwi'n ymwybodol mae'r sgwrs wedi trafod lot ar y problemau a ballu, ond dio'm yn ddrwg i gyd nac ydi?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Dim o gwbl. Chi'n siarad â lot o clercod, a maen nhw i gyd yn mwynhau eu swyddi.

Dim swyddi yw'r broblem, mae yna pethau eraill o'u cwmpas sy weithiau sy'n gallu bod yn anodd.

Ond o ran y gwaith dydd i ddydd, mae lot o amrywiaeth, mae lot o ymwneud â phobl sydd yn gallu bod yn grêt. Chi'n rhan o'r gymuned, chi'n cymryd rhan mewn digwyddiadau ac ati. Mae lot fawr o hwyl i gael, a byddwn i yn argymell y rôl, a ma' na brinder o glercod, felly mae'n digon o gyfleoedd i gael hefyd i gael gwaith.

Felly byddwn i'n annog pobl i drial, a ma' croeso i unrhyw un gysylltu efo fi unrhyw bryd os ydyn nhw isie sgwrs o beth yw'r gofynion rôl, a beth yw'n profiad i. Dwi wedi gweithio i gyngor bach, cyngor canolig a cyngor mawr erbyn hyn, felly ma' tipyn o brofiad gen i o'r gwahanol rhai a beth yw'r gwahaniaethau. A ma' lot fawr o wahaniaethau rhwng y cynghora bach a cynghora mawr felly, ond fi di joio

pob un a ma' di dod â profiadau gwahanol i'n bywyd i, felly fi'n ddiolchgar iawn amdano fe.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Wedyn, dan ni di siarad yn benodol ac yn gyffredinol am be ydi bod yn glerc cyngor cymuned a thref, a rhan o be dach chi'n wneud fel sefydliadau ydy dach chi'n cynnal prosiectau bob hyn a hyn, dydach?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Un o'r pethau mae Cyngor Tre Caerfyrddin yn wneud wel dau a dweud gwir dach chi di gwneud di cynnal Cynhadledd Hinsawdd Plant a ma' gennych chi brosiect ynni cymunedol.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Wedyn, fedrwch chi ddisgrifio'r Gynhadledd Hinsawdd Plant?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Ie, daeth y syniad i biti achos o dan y Deddf Llesiant Cenedlaethol Dyfodol, ma' dyletswydd arno ni. i ystyried y dyfodol, y cynaladwyedd ac ati, ac i edrych fel cenedlaethau'r dyfodol, a fel cyngor ni eisiau ymgysylltu gyda pobl ifanc yn y gymuned hefyd.

Felly, daeth y syniad tua pum mlynedd yn ôl i gwneud cynhadledd hinsawdd plant, a wnaethon ni dechrau gwneud hynny yn 2023 yn iawn, ond oedd yr un 2024 er enghraifft

ac enillon ni wobr gyda un Llais Cymru ar gyfer yr un yna. Be ddigwyddodd, gaethon ni naw ysgol leol at ei gilydd, 7 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd, wedi anfon rhwng ambiti pump i ddeg disgybl yr un i ddod i'r cynhadledd.

Oedd y Brifysgol wedi cytuno a gydweithio gyda ni, Brifysgol Cymru a Drindod Dewi Sant, a wnaethon nhw cynnal y digwyddiad lan yn Ganolfan yr Halliwell. A fan'na daeth y plant i ddysgu am pethau amgylcheddol gan gynnwys cylch bywyd Pili Pala, o'n nhw'n wneud bach o modelu gyda jync de a defnyddio ailgylchu, a wnaethon nhw ystyried beth oedd ôl troed carbon nhw a cyfri hwnna.

Dros y brêc cinio hefyd, oedd yna grŵp amgylcheddol lleol yn gweithio gyda nhw ar edrych ar mwydod a broses bwyd y compostio ac ati. Un o'r heriau'r dydd oedd bod nhw'n dod â bocs bwyd cynaliadwy ac gyda gwobr am yr un gore.

Oedd e'n brofiad da i'r plant achos nhw'n cael gweld y brifysgol, a ma' hwnna'n creu linc wedyn ni a bod nhw'n cofio hwnna wedyn ni pan ma' nhw'n hwyrach yn henach ymlaen a creu link nawr yn yr ysgolion a'r dre hefyd a gyda'r Cyngor Tre.

Oedd y darlithwyr ynghlwm ag e, oedd y myfyrwyr ynghlwm â fe, felly oedd e'n broject iddyn nhw. A gaethon ni yr Ardd Fotaneg mewn hefyd i helpu ni, so oedd e'n project partneriaeth; gweithio ar y cyd, tynnu sefydliadau fel y Brifysgol mewn sydd yn sefydlu'n mawr ond yn lleol i ni, yr un peth gyda'r Ardd Fotaneg, achos ma' hwnna jyst lawr y rhewl, er mwyn rhoi y gweithgareddau yma ymlaen fel bod nhw'n dysgu trwy wneud basically, a gaethon nhw lot fawr o sbort. Oedd e'n brofiad ffantastig a oedd pawb wedi joio, oedd darlithwyr yn canmol, oedd y myfyrwyr wedi mwynhau, a oedd y plant yn sicr wedi mwynhau, a wnaethon nhw dysgu tipyn ar yr un pryd.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Felly yn ddiwrnod ymarferol iawn felly?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Oedd, ie, oedd dim ishte lawr i gael. Wnaethon ni croesawu nhw ar y dechrau. Oedd e fel cynhadledd go iawn achos oedd un prif stafell a wedyn oedd ardaloedd fel breakout i fynd i er mwyn wneud gweithgaredd.

A wedyn o'n i'n mynd rownd a wneud cylch o grwpiau Cymraeg a grwpiau Saesneg gyda ni, felly oedd hi'n ddigwyddiad hollol ddwyieithog, pawb yn casglu at ei gilydd i gael cinio ac ati, y bwriad oedd i wneud gweithgareddau mas tu fas, ond oedd y tywydd ddim yn addawol iawn ar y dydd.

Ond rydyn ni yn gobeithio wneud hwnna rywbryd eto yn y dyfodol, achos ma' hwnna'n rywbeth sydd yn parhau. Oedd e'n neis i weld bod y rai henach hefyd yn gallu mwynhau, achos plant blwyddyn saith a wyth, ti ddim cweit yn siŵr os ydyn nhw'n mynd i ymgymryd yr peth yn yr un ysbryd, a'r plant bach, ond weithiodd e ar draws yr oedran, nes cadw nhw yn y grwpiau oedran, a wedyn eu sorto nhw yn ôl iaith hefyd.

Felly, gweithiodd y diwrnod yn dda iawn, a oedd e'n enghraifft da o weithio mewn partneriaeth, le ni'n arwain o ran cyfuno popeth a tynnu pawb at y gilydd. Ond y Brifysgol wedi bod yn help mawr o ran yr adnoddau a rhoi'r adeilad i ni. O'n i wedi wneud e yn neuadd fan hyn gyda'r cyngor y flwyddyn cyn hyn, ond mae tipyn mwy ofod gyda nhw a oedd yn gweithio yn well.

A oedd e'n profiad da i'r myfyrwyr, ond hefyd cael yr Ardd Fotaneg yn glwm a'r grŵp amgylcheddol lleol, jyst bach o bawb yn lleol yn cyfrannu felly, profiad neis i bawb.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Be oeddech chi'n wneud i gyflawni'r prosiect oedd y rôl cyfuno yna?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Y cyfuno a hwyluso be oes i yn siarad â nhw ar y dechrau'r enghraifft ac ar y diwedd, bydd yn hyd weithio'r rheina yn helpu i symud plant y biti a rhoi cyfarwyddiadau iddyn nhw a chefnogi ac ati.

Felly, oedd e'n prosiect ar y ar y cyd a gaethon ni lluniau, wnaethon ni adroddiad. A beth ni'n wneud bob blwydd yw casglu eu barn nhw fel bod ni'n gallu rhoi e yn strategaeth y cyngor hefyd. Fel bod ni ddim jyst yn wneud e ar y dydd a gadael e fan'na.

Ni'n cymryd eu adborth nhw, a naill ai roi nhw yn y strategaeth, neu ni'n edrych arno fe ar y flwyddyn i ddod, a gweithio ar beth maen nhw wedi gweud os yw o fewn ein cylch gwaith ni. Os nad yw e, ni'n pasio fe ymlaen at sefydliad arall, a wedyn ni'n ei adrodd yn ôl atyn nhw y flwyddyn ar ôl ni, ni'n dweud, reit, chi di gofyn am hwn, na beth ni di wneud yn ystod y flwyddyn diwetha, fel bod nhw'n cael gweld bod y geiriau nhw'n cael effaith.

Felly mae hwnna'n bwysig iawn yn rhan ohono fe hefyd,
a falle bydd e'n llwyddiant mawr o ran yr adroddiad a gallu rhannu pethau ar cyfryngau cymdeithasol hefyd, achos oedd e'n amlwg wedi bod yn brofiad buddiol.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ia, felly dach chi di cael rywbeth defnyddiol ac ymarferol iawn allan o gynnal y gynhadledd at cywain gwybodaeth felly?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Oedd e'n gyment i ni ag odd ‘e iddyn nhw. Oedd e'n ddigwyddiad grêt i'r plant ac i bawb arall oedd yn cymryd rhan, ond oedd e'n galluogi ni ymgysylltu â'r gymuned, ac yn enwedig y plant a'r pobl ifanc, achos mae'n anodd iawn gwneud hynny heb bo' chi'n mynd i'r ysgol ac ati, a maen nhw'n eistedd lawr yn y neuadd. Dyw e ddim yr un profiad.

Wrth gael nhw yn yr ystafell gyda chi'n wneud gweithgareddau, maen nhw'n siarad yn fwy rhydd, chi'n cael barn mwy onest, a mae'n grwpio bach ffocws fel yna ar pwnc penodol, chi'n gallu cymryd y camau yma ymlaen, a trio gwella pethau'r dyfodol iddyn nhw. Weithiau maen nhw'n mynd off ar pob math o tangents, ond ma' hwnna'n iawn, ma' hwnna'n fine, a ni jyst yn yn cynnwys rheini hefyd, ond o ran y cynaladwyedd ac ati yn y ffocysu mewn wedyn ni, a beth yw beth yw ein amcanion ni yn mynd i fod yn seiliedig ar eu barn nhw a'r cynaladwyedd i'r dyfodol, a gallu tynnu mewn rywfaint o'r pethau eraill maen nhw'n poeni amdano, ond yn mynd ar drywydd arall wedyn ni i edrych ar rheini.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

A wedyn dach chdi cyffwrdd ‘chydig ar hyn ond oes gennych chi gynlluniau pellach efo'r prosiect yna neu'r prosiect tebyg?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Ma'n cadw mynd ymlaen bob blwyddyn. Yr un sy' di digwydd yn dwy fil a dau ddeg pump wedi digwydd ar y cyd gyda'r Cyngor Sir, achos o'n nhw'n cynnal cynhadledd hinsawdd eu hunain hefyd. Oedd ychydig yn fwy eang o ran lleoliad, a wnaethon ni cynnal sesiwn prynhawn. O'n nhw wedi wneud sesiwn bore, a wnaethon ni mwy o'r modelau jync fan'na. A ni'n edrych i ddatblygu hwnna nawr eleni, bydd hwnna tua mis Tachwedd fi'n credu.

Felly mae'n rywbeth ni yn mynd i wneud yn flynyddol a mae'n esblygu ac yn datblygu pob blwyddyn i fod yn rywbeth gwahanol. A mae wastad yn rywbeth pleserus i wneud jyst i weld y plant yn cymryd rhan a clywed eu lleisiau nhw a'u barn nhw achos mae'n cynnig rywbeth newydd, rywbeth ffres.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Yndi mae o, ie. Wedyn project arall dach chi yn sôn amdano fo, mae gynnoch chi brosiect ynni cymunedol? Fysech chi'n licio, hynny yw, be di'r prosiect yna?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Dwi wastad wedi bod â diddordeb yn y prosiectau ynni cymunedol yma.
Os dach chi'n gweld y llwyddiannau yn llefydd fel Dyffryn Ogwen ac ati, o'n i â diddordeb, a oedd yr aelodau yn sicr â diddordeb, yn edrych ar beth yw potensial Caerfyrddin ar gyfer ynni cymunedol.

Ma' afon gyda ni, ond ddim i'r un graddau a be sy lan fan'na o ran potensial pŵer, er bod e'n tidal a be ges i'n trafod gyda grŵp cynaliadwyedd ac amgylcheddol lleol sefydliadol ni, ddylwn i ddweud yw grŵp, a gofynna i am eu barn nhw a'u cyngor nhw. Wedyn daeth cyllid grant lan trwy'r SPF, cyllid SPF y Llywodraeth Prydain, a un o'r pethe oedd diddordeb yn y cyllid yna oedd pethau cynaliadwyedd a ynni cymunedol ac ati, felly bues i mewn cyswllt ambiti treial wneud project fan hyn. Eu barn nhw oedd bod isie astudiaeth ddichonoldeb fel y man cychwyn sydd yn gwneud sens i ffindo mas beth sydd â potensial yng Nghaerfyrddin.

So, na le dechreuodd e rili, a yn fuan iawn wnaethon ni canfod bod potensial solar yw'r potensial mwya sydd yng Nghymru. Felly, oedd e'n fater o cysylltu gyda sefydliadau busnesau yng nghanol tre oedd modd prynu gwasanaethau ryw gwmni oedd yn gallu wneud ryw rooftop study er mwyn ffindo'r lleoliadau gorau ar gyfer hwnna hefyd.

Oedd hwnna'n bwysig. Wnaeth rywun ffonio ambiti cant undeg wyth o fusnesau er mwyn cael eu barn nhw arno fe hefyd, a wnaeth hwnna cael ei ddisodli lawr i ddeg o leoliadau wedyn i gath astudiaeth effeithlonrwydd ynni, so i mynd mewn edrych ar yr insulation, edrych ar y trydan, edrych ar y bylbie a'r radiators a pethe fel yna a gwella pethe fel yna, ond hefyd edrych ar y potensial yr adeilad i safio yna trwy safio costau trwy'r potensial solar ac adnabod potensial eitha da mewn sawl un o'r rheini oedd yn defnyddio tipyn o drydan, er enghraifft.

Felly, ma'r ma'r adroddiad yna wedi ffindo digon o potensial i wneud hynny yn y yn y dre, ma' rai gymhlethdodau o ran beth maen nhw'n
galw'n conservation area yn ganol y dre, felly ma' cyfyngiadau fan'na, ond y cam nesaf wedyn y fydd cymryd yr astudiaeth sydd wedi ei orffen, wedi ei wedi ei gyhoeddi ac ati, er mwyn gallu troi hwnna mewn i realiti ar gyfer y busnesau ac ati, a gwerthu rhywfaint o'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu yn ôl i'r gymuned ar lefelau tsiep, costau tsiepach.

A dyna beth oedd yr dyna beth oedd diddordeb y cyngor mewn iddo fe. Oedd gallu gwerthu ynni yn ôl i'r gymuned yn rhatach a hefyd helpu sefydliadau cymunedol, achos be ni'n edrych ar sefydliadau a adeiladau sefydliadau

cymunedol hefyd, nag yw jyst busnesau fel bod ni'n gallu rhoi yn ôl i mewn i'r gymuned, rhoi cadw costau pobl fel yna lawr hefyd.

Felly, oedd e'n eitha diddorol o ran y canlyniadau, cyfyng yn y diwedd o ran faint wnaethon nhw dod i ben a wneud, ryw ddeg ohonyn nhw, ond yn sicr oedd potential yna a wnaethon nhw helpu'r busnesau yna i safio ar eu biliau ac ati.

So, a dyna beth oedd prif cymhelliant y busnesau, oedd lleihau costau sydd yn prif gymell i unrhyw fusnes ar hyn o bryd, achos mae'n anodd arnyn nhw ar y funud.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Yndi, felly fuodd yna, oes 'na baneli solar wedi cael eu gosod o'r project a'r astudiaethau oedd yr project?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Astudiaeth oedd hwn, ond ma' na fwy o gyfleoedd grant yn dod lan nawr, felly fi dal mewn cyswllt gyda Ynni Sir Gâr ac Ynni Teg, oedd yn gwneud yr astudiaeth ar ein rhan ni a mynd mas i wneud yr ymweliadau ac ati. Fi dal mewn cyswllt gyda nhw o ran ffindo'r cyfle yna i gael arian grant i wneud y gwaith.

Achos un o'r pethe wnaethon ni trafod reit ar y dechrau yw, ni ddim eisiau i hwn fod yn adroddiad arall sy'n eistedd ar silff ddim yn wneud dim byd, a fi dal i deimlo hwnna.

Mae amser yn mynd ymlaen, ond mae'r cymhelliant dal neu- wna i wneud rywbeth amdano fe, ond mae jyst yn aros am y cyfle iawn o ran cyllid i allu symud e ymlaen.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ac ai fan'na mae'r prosiect yn gorffen ŵan, yn o ran aros am gyllideb er mwyn gosod pethau ta oes na bethau eraill yn mynd ymlaen yn y byd ynni cymunedol?

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Ma' lot fawr yn mynd ymlaen gyda nhw o ran gwahanol projectau. Dim byd yn uniongyrchol gyda ni ar hyn o bryd, ond ni yn aros am y cyfle i allu gwreddio hwn. Ni wedi bod yn trafod y cynllun ceir trydan gyda nhw

hefyd. Ma' sawl un o rheina wedi popio lan o gwmpas Cymru, a ma' hwnna dal ar y gorwel hefyd, a hoffwn i wneud hwnna.

Cael digon o bobl ynghlwm â'r peth yw'r tric fan'na, achos mae'n ma' isie sawl peth fel rywle i parcio a gwefru'r car ac ati. Felly cael digon o bobl yym yn rhan o'r project i allu cynnig hwnna, a pobl i allu cymryd y bookings ac ati. Mae mae eitha cymhleth, ond rywbeth sy'n sicr dal fel targed, ond weithiau fi jyst yn ystyried bod y pethau hyn yn gallu cymryd mwy o amser na ti'n ystyried a ond mae dal na fel rywbeth hoffwn i wneud.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ia wedyn ar hynny, diolch yn fawr iawn am rannu am brojectau yng Nghyngor Tref Caerfyrddin, a'r projectau ‘da chi ynghlwm â nhw, rhei ohonyn nhw ac hefyd diolch yn fawr iawn Emma am eich amser ac am rannu eich gwybodaeth a'ch brofiad.

**Emma Smith (Cyngor Tref Caerfyrddin)**

Croeso, diolch yn fawr iawn am wahodd ni i fod yn rhan o'r podlediad.

**Rhian Jones (Archwilio Cymru)**

Diolch am wrando ar y bennod hon o bodlediad Y Gyfnewidfa. Os wnaethoch chii fwynhau'r bennod, cofiwch danysgrifio trwy'ch darparwr podlediadau i ddal pennodau'r dyfodol.

Byddai adolygiad cyflym a rhannu gyda'ch ffrindiau neu'ch cydweithwyr yn golygu llawer i ni.

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar nodiadau'r bennod, mae'r holl ddylenni a manylion cyswllt yno.

Gellwch hefyd fynd draw i'n gwefan archwilio dot cymru os oes gennych gwestiynau neu sylwadau, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.